

CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ddydd Iau 25 Ionawr 2018 am 10.30am yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cabinet – oedd yn bresennol:-

Y Cyngorydd A. Morgan (Cadeirydd)

Y Cyng. M. Webber
Y Cyng. M. Norris

Y Cyng. R. Bevan
Y Cyng. J. Rosser

Y Cyng. A. Crimmings
Y Cyng. R. Lewis

Y Cyng. G. Hopkins
Y Cyng. C. Leysnon

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C. Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C. Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Mr C. Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus
Mr C. Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen
Mr G. Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Ms E. Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes
Mr N. Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
Bow, Pennaeth y Gwasanaethau Llety
Ms A. Richards, Pennaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif

Eraill oedd yn bresennol

Y Cyng. S. Bradwick

95 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chôd Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

96 COFNODION

PENDERFYNODD y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2017, yn rhai cywir.

97 CYNYDDU CYFLAWNIAD AILGYLCHU – SYLW CYN Y CAM CRAFFU

Rhoddodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet wybod i'r Aelodau am y trefniadau craffu sydd yn eu lle mewn perthynas â'r adroddiad 'Cynyddu Cyflawniad Ailgylchu'. Eglurwyd mai'r adroddiad oedd yr ail o ddau adroddiad oedd wedi arwain yn uniongyrchol o sgwrs gyda'r Cadeirydd, gan dynnu sylw at y gwaith da rhwng y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau byddai'r adroddiad yn cael sylw ar y noson honno gan y Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant – cyn y cam craffu, a byddai'n cael ei gyflwyno eto i'r Cabinet am benderfyniad yn y dyfodol agos.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd wybodaeth i'r Cabinet am y cynnig. Eglurwyd bod gan y Cyngor dargedau statudol i'w bodloni ynglŷn â materion ailgylchu, a byddai methu â'u bodloni nhw yn arwain at ddirwyon sylweddol. Gyda'r ddarpariaeth bresennol yn methu â bodloni'r targedau, cynigiwyd y canlynol:

- **Cwm Rhondda** – cwtogi ar nifer y bagiau du o bedwar bag bob

- pythefnos i ddau fag bob bythefnos;
- **Cwm Cynon ac ardal Taf–Elái** – cyflwyno polisi ‘dim gwastraff ychwanegol’, waeth beth yw maint y bin, a’r amod bod rhaid i gaead y bin fod i lawr.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr sicrwydd i’r Aelodau na fyddai’r cynnig yn cael unrhyw effaith anffafriol ar y trigolion hynny sy’n ailgylchu gwastraff yn y ffordd gywir, ond, yn hytrach, byddai’n targedu’r rhai sydd ddim yn gwneud hynny.

Ychwanegodd Arweinydd y Cyngor byddai’r adroddiad, ar ôl iddo gael sylw cyn y cam craffu, yn egluro unrhyw wybodaeth anghywir – er enghraifft, y broses gosbi yn achos trigolion sy’n ailgylchu gwastraff yn y ffordd anghywir. Eglurwyd byddai camau yn eu lle, gyda rhybuddion i sicrhau bod trigolion yn deall y newid yn y gwasanaeth, cyn cyflwyno unrhyw ddirwy.

Meddai’r Arweinydd hefyd na fyddai Cyngor Rhondda Cynon Taf – yn wahanol i Awdurdodau eraill – yn cwtdogi ar amlder y gwasanaeth casglu gwastraff o gartrefi i lai nag unwaith bob pythefnos oherwydd byddai gwneud hynny’n cosbi’r trigolion.

Canmolodd y Dirprwy Arweinydd y defnydd o’r camau cyn craffu, gan ddweud byddai’n sicrhau bod pob Aelod yn deall y cynigion cyn gwneud unrhyw benderfyniad a chyn cynnal y broses ymgysylltu â’r cyhoedd.

PENDERFYNWYD:

1. nodi’r trefniadau sydd ar waith o ran y camau cyn craffu ar yr adroddiad ‘Cynyddu Cyflawniad Ailgylchu’ (fel sydd i’w weld yn Atodiad 1);
2. ystyried yr adroddiad uchod mewn cyfarfod yn y dyfodol, ar ôl i’r Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant – roi sylw i’r adroddiad cyn y cam craffu.

Noder: Gyda chaniatâd y Cadeirydd, siaradodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S. Bradwick am yr eitem yma.

98

CYNYDDU'R HYSBYSIAD COSB BENODEDIG

Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd adroddiad i’r Cabinet oedd yn gofyn am awdurdod i gynyddu’r Hysbysiad Cosb Benodedig bresennol o £75 i £100. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at yr Hysbysiad Cosb Benodedig o £100 gafodd ei sefydlu yn ddiweddar gan y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus i gryfhau’r mesurau rheoli cŵn yn Rhondda Cynon Taf, gan esbonio byddai alinio’r dirwyon yn osgoi drysu’r trigolion.

Siaradodd yr Aelod o’r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden yn gadarnhaol am y cynnig, gan esbonio mai un o’r blaenoriaethau yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor oedd creu cymdogaethau lle mae pobl yn falch o fyw a gweithio, a byddai hyn yn rhwystr arall i’r rhai sy’n methu â chael gwared ar wastraff eu cŵn yn y ffordd gywir.

PENDERFYNWYD:

1. nodi’r gefnogaeth gyhoeddus aruthrol o blaid cyflwyno’r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus, a’r gwaharddiadau a’r gofynion o ran rheoli

cŵn;

2. cymeradwyo cynyddu'r Hysbysiad Cosb Benodedig presennol o £75 i £100 (a thrwy wneud hynny, greu incwm blynyddol ychwanegol o £20,000 yn 2018/19 yn ôl amcangyfrif) o 1 Ebrill 2018 i'w alinio i'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ac osgoi drysu'r cyhoedd, yn achos y materion canlynol:-

- Gadael/taflu sbwriel
- Llygru deunydd i'w ailgylchu
- Tipio anghyfreithlon
- Codi posteri anghyfreithlon
- Graffiti
- Biniau ar y briffordd

99

CANLYNIADAU ARHOLIAD CYFNOD ALLWEDDOL 4 A 5 A CHATEGOREIDDIO YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD AR GYFER 2018

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes gadarnhad terfynol i'r Aelodau o ganlyniadau arholiadau Cyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 5 ar gyfer 2016–17 a chategoreiddio Ysgolion Cynradd ac Uwchradd ar gyfer 2017–2018 yn ôl system Llywodraeth Cymru.

Esboniodd y Cyfarwyddwr fod cwricwlwm Cyfnod Allweddol 4 wedi newid yn sylweddol yn 2017, felly, doedd dim modd cymharu'r canlyniadau â chanlyniadau'r blynyddoedd blaenorol. Cyfeiriwyd Aelodau'r Cabinet at dabl yn 5.7 yn yr adroddiad, lle roedd yn amlwg bod dull cyfrifo'r dangosyddion perfformiad allweddol yn awgrymu gostyngiad mewn cyflawniad addysgol yn Rhondda Cynon Taf.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at Adran 6 o'r adroddiad, lle roedd amlinelliad o'r cynnydd yng Nghyfnod Allweddol 5, ac roedden nhw'n falch o gael gwybod bod Rhondda Cynon Taf wedi perfformio'n dda yn ôl dangosydd trothwy cenedlaethol Lefel 3.

Yn olaf, cyfeiriwyd yr Aelodau at Adran 7 o'r adroddiad, lle roedd amlinelliad o gategoreiddio'r ysgolion cynradd ac uwchradd. Roedd yr aelodau'n falch o gael gwybod bod pob ysgol wedi cael cymorth digonol a bod y rhai yn y categori coch yn gweithio gyda'r Cyngor i sicrhau cynnydd yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg yn cydnabod nad oedd modd cymharu canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 â chanlyniadau'r blynyddoedd blaenorol, ond, ychwanegodd bydden nhw'n gweithredu fel meincnod ar gyfer y dyfodol. Meddai'r Aelod roedd hi'n bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc – y noson flaenorol, a bu trafodaethau cadarn mewn perthynas â'r newidiadau a bod yr Aelodau'n falch o weld cymorth yn cael ei roi fesul pwnc, nid fel ysgol yn unig.

PENDERFYNODD yr Aelodau o'r Cabinet:

1. nodi'r wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad;
2. nodi'r camau oedd wedi eu cymryd hyd yn hyn a'r camau sydd i'w cymryd gan y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes mewn

partneriaeth â Chonsortiw Canolbarth y De i fod o gymorth i'r ysgolion cynradd ac uwchradd hynny yn y categorïau Oren a Choch.

100 GWASANAETH TROSEDDAU'R IFAINC CWM TAF

Rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant adroddiad i'r Aelodau ar ganfyddiadau a deilliannau'r Cyd-arolygiad llawn o Wasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf, a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2017, a thynnu sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r cyd-arolygiad ym mis Gorffennaf 2017.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at Adran 6 o'r adroddiad, lle roedd y manylion am y canfyddiadau. Esboniodd y Swyddog fod y canfyddiadau'n gytbwys ac yn dangos bod Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc yn cyflawni'n gynt na'r disgwyl a bod y Pwyllgor Craffu'n parhau i fonitro'r cynllun gweithredu.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at y deiliant isaf, sef materion 'llywodraethu a phartneriaethau'. Rhoddwyd gwybod ei bod hi'n debygol bod hyn o ganlyniad i'r bartneriaeth newydd rhwng Cyngor Rhondda Cynon Taf a Chyngor Merthyr Tudful lle roedd sgiliau'n cael eu meithrin o hyd.

Roedd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc yn fodlon ar yr adroddiad, a meddai fod y gwasanaeth yn gydnerth o hyd, hyd yn oed yn ystod y newidiadau.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. cydnabod canfyddiadau a deilliannau'r Cyd-arolygiad llawn o Wasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf;
2. nodi'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad yma a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella.

101 GWASANAETH MABWYSIADU CENEDLAETHOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL

Rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant adroddiad blynyddol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar gyfer 2016–17 i'r Aelodau (Atodiad 1 i'r adroddiad). Meddai'r Swyddog fod angen tynnu sylw'r Cabinet at yr adroddiad, a'i fod yn fodlon i'r Cabinet ofyn cwestiynau.

Ychwanegodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc ei bod yn aelod newydd ac y byddai hi'n hoffi dysgu mwy o'r cyfarfodydd.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. nodi cynnwys yr adroddiad.

102 NEWIDIADAU GWEITHREDOL I'R GWASANAETH PRYDAU YN Y GYMUNED A'R CYNNIG I GAU CANOLFAN ORIAU DYDD SAN SIÔR A THROSGLWYDDO'R DDARPARIAETH MYNEDIAD AGORED CANOLFAN ORIAU DYDD I GANOLFAN ORIAU DYDD Y GILFACH-GOCH

Rhoddodd Pennaeth Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif adroddiad i'r Aelodau o'r Cabinet

oedd yn cynnwys y cynigion canlynol:

- Cynnal y Gwasanaeth Prydau yn y Gymuned presennol, ond, newid y trefniadau gweithredol i wella effeithlonrwydd y gwasanaeth yma; a
- Cychwyn y broses ymgynghori ynglŷn â chau Canolfan Oriau Dydd San Siôr, Tonyrefail, a throsglwyddo'r gwasanaethau oriau dydd mynediad agored i Ganolfan Oriau Dydd y Gilfach-goch.

Esboniodd y Swyddog fod y Gwasanaeth Prydau yn y Gymuned wedi darparu gwasanaeth ar gyfer oedolion ers blynyddoedd lawer, ond, yn sgil cyflwyno'r Cyflog Byw Cenedlaethol, y cynnydd mewn prisiau bwyd a'r costau ynni cynyddol, mae rhaid i'r Cyngor rhoi cymhorthdal i'r costau uchel o ran cynhyrchu, dosbarthu, pacio, a staff. Ychwanegwyd bod y galw am y gwasanaeth wedi gostwng; gyda'r gwasanaeth yn ystod yr wythnos yn gostwng 20% a'r gwasanaeth dros y penwythnos yn gostwng 66% yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf.

Eglurwyd byddai'r cynnig isod yn ceisio parhau i gynnig gwasanaeth yn y gymuned, sy'n effeithlon ac yn effeithiol, ac sy'n cynrychioli gwerth da am yr arian:

- Parhau i ddarparu prydau wedi eu coginio'n ffres yn ystod yr wythnos.
- Dosbarthu prydau o'r rhewgell, yn lle prydau wedi eu chwyth-oeri, dros y penwythnos.
- Cwtogi ar nifer y ceginau cynhyrchu o dair cegin i un cegin.
- Cael un cegin gynhyrchu, yn Ynys-hir.
- Cadw'r gwasanaeth mynediad agored ar gyfer cleientiaid.
- Trosglwyddo cyfrifoldeb rheoli Canolfan Oriau Dydd y Santes Fair a Chanolfan Oriau Dydd Aberpennar i'r Gwasanaethau Cymuned.
- Cau Canolfan Oriau Dydd San Siôr, a throsglwyddo'r gwasanaeth oriau dydd mynediad agored i Ganolfan Oriau Dydd y Gilfach-goch.

Rhoddodd y Swyddog sicrwydd i'r Aelodau fod prydau o'r rhewgell wedi eu dosbarthu ymhlith cleientiaid yn y gorffennol heb unrhyw gwynion i'r gwasanaeth, a'r argymhelliad oedd eithrio hyn o'r ymgynghoriad.

Cafodd yr Aelodau wybod am gyflwr gwael Canolfan Oriau Dydd San Siôr, a bod yr adborth oedd wedi dod i law yn awgrymu bod nifer sylweddol o ddefnyddwyr Canolfan Oriau Dydd y Gilfach-goch yn byw yn Nhonyrefail, ond, mae'n well ganddyn nhw deithio i'r Gilfach-goch i fanteisio ar amgylchedd gwell a mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Swyddog am yr adroddiad, ac egluro pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai'r Cyngor yn ymdrechu i osgoi diswyddo oherwydd bod llawer o'r staff wedi mynegi diddordeb mewn colli eu gwaith yn wirfoddol a byddai cyfle i'r gweddill gael eu hadleoli i adrannau eraill yn y Cyngor. Esboniodd yr Arweinydd fod tua hanner yr holl Awdurdodau Lleol yng Nghymru wedi methu â darparu Gwasanaeth Prydau yn y Gymuned oherwydd cyni ariannol; serch hynny, byddai'r cynnig yma'n parhau i gynnig gwasanaeth effeithiol i'r defnyddwyr. Dywedwyd y byddai'r rhan fwyaf o'r cleientiaid yn gallu teithio i'r cyfleuster newydd yng Nghanolfan Oriau Dydd y Gilfach-goch, a'i bod hi'n braf gweld cynlluniau wrth gefn yn cael eu rhoi ar waith pe bai tywydd gwael neu doriad pŵer ac ati.

Holodd yr Arweinydd ynglŷn â defnyddwyr y gwasanaeth a gofyn a oedd proses groesgyfeirio wedi ei chyflawni i sicrhau bod gan bob cleient fynediad i rewgell a microdon ar gyfer y prydau o'r rhewgell dros y penwythnos, ac a oedd staff yn fodlon bod gan bawb y gallu i wneud hyn yn annibynnol. Rhoddwyd sicrwydd bod y broses gywir wedi ei chynnal ac, os byddan nhw'n dod o hyd i ddefnyddwyr sydd angen cymorth ychwanegol, byddan nhw'n cael eu cyfeirio ar hyd y llwybr gofal cywir.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg yn gadarnhaol am yr adroddiad, gan ddweud byddai'r newid i ddull darparu'r Gwasanaeth Prydau yn y Gymuned yn weithredol, felly, byddai'n cynnal y safonau uchel presennol. Roedd yr Aelod o'r Cabinet o blaid y cynnig i gynnal ymgynghoriad wyth wythnos o hyd ynglŷn â throsglwyddo Canolfan Oriau Dydd San Siôr i Ganolfan Oriau Dydd y Gilfach-goch, gan wneud sylwadau ar ansawdd presennol yr adeilad, cost y gwaith hanfodol a diffyg defnyddwyr.

Meddai'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a Phlant fod y newidiadau sy'n cael eu hamlinellu yn y cynnig yn rhai synhwyrol a bydden nhw'n sicrhau dosbarthu prydau o ansawdd da ymhlith y trigolion.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. cynnal y lefelau gwasanaeth presennol sy'n cael eu darparu gan y Gwasanaeth Prydau yn y Gymuned;
2. newid dull cadw prydau'r penwythnos o'r dull "chwyth-oei" i'r dull "wedi rhewi";
3. cwtogi ar nifer y ceginau cynhyrchu Prydau yn y Gymuned o dair cegin i un cegin (cadw'r cegin yn Ynys-hir), ac aildrefnu'r teithiau dosbarthu a'r staffio, gan arbed £258,000 y flwyddyn, am gost cyfalaf untro o £180,000, a daw'r cyllid cyfalaf hwnnw o'r adnoddau presennol;
4. bod y Cyngor yn cynnal proses ymgynghori â'r cyhoedd, sy'n wyth wythnos o hyd, ynglŷn â'r cynnig i gau Canolfan Oriau Dydd San Siôr, Tonyrefail, a throsglwyddo'r gwasanaethau oriau dydd mynediad agored i Ganolfan Oriau Dydd y Gilfach-goch; a
5. cael adroddiad ychwanegol sy'n crynhoi'r canlyniadau a'r adborth a ddaw o'r broses ymgynghori cyn gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'r cynnig i gau Canolfan Oriau Dydd San Siôr.

103

**CYFLAWNI'R CYNLLUN CORFFORAETHOL – “Y FFORDD YMLAEN” –
BUDDSODDI AR GYFER Y DYFODOL**

Rhoddodd y Prif Weithredwr adroddiad i'r Cabinet oedd yn egluro'r blaenoriaethau o ran buddsoddi cyfalaf strategol byddai'r Cyngor yn ymrwymo iddyn nhw dros y cyfnod o dair blynedd i bum mlynedd nesaf, yn ychwanegol at ei raglen gyfalaf flynyddol gylchol, i wireddu ei Gynllun Corfforaethol – “Y Ffordd Ymlaen”.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at Gynllun Corfforaethol y Cyngor, a'r blaenoriaethau allweddol a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Chwefror 2016:

- **ECONOMI** – Adeiladu economi gref

- **POBL** – Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb
- **LLE** – Creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw

I wireddu'r blaenoriaethau hyn ac i symud gyda'r oes, eglurwyd byddai rhaid i'r Cyngor barhau i sicrhau buddsoddiad i wneud yn siŵr bod y gwasanaethau cyhoeddus o safon sy'n sicrhau bod Rhondda Cynon Taf yn gymuned ffyniannus a lle mae trigolion yn falch o gael byw ynddi.

Rhoddodd yr Arweinydd ddiolch i'r Prif Weithredwr am adroddiad mor gadarnhaol, gan ddweud ei bod hi'n anarferol iawn i Awdurdod Lleol gynneg cynlluniau mor uchelgeisiol a chreadigol o ran buddsoddi, sy'n ychwanegol at y rhaglen buddsoddi cyfalaf. I sicrhau rhagor o gyfleoedd tai yn y Fwrdeistref Sirol, eglurwyd byddai angen gwella'r seilwaith trafndiaeth – megis cynlluniau ar Ffordd Osgoi Aberdâr a ffordd ddeuol A4119. Cyfeiriodd yr Arweinydd at wella manau gwyrdd a Pharc Ynysangharad, a'r gwaith gwella helaeth mewn manau chwarae yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Wrth sôn am yr holl fannau chwarae oedd wedi eu hadnewyddu yng Nghymru, roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod bron 50% ohonyn nhw yn Rhondda Cynon Taf a byddai'r cynlluniau hyn yn golygu fyddai unman ymhellach na thair milltir i fwrdd o faes chwaraeon pob tywydd (“3G”).

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a Phlant yn cydnabod nad oedd erioed wedi gweld cynigion buddsoddi yn debyg i'r rhai ger ei fron, ac roedd yn arbennig o falch o'r buddsoddiad mewn cyfleusterau gofal ychwanegol i sicrhau bod trigolion hŷn yn derbyn y gofal maen nhw'n ei haeddu.

Canmolodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai yr adroddiad, gan ddweud byddai Rhondda Cynon Taf yn gosod cysail i Awdurdodau Lleol eraill, a byddai'n parhau i ddatblygu, yn arbennig ar gyfer pobl ifainc a'u cyfleoedd.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r swyddogion am yr adroddiad, a meddai ei bod hi'n drueni nad oedd Aelodau'r Gwrthbleidiau yn bresennol yn y cyfarfod i gael gwybod am y cynllun uchelgeisiol.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod cynrychiolydd Chwaraeon Cymru eisoes wedi dweud bod Rhondda Cynon Taf yn wahanol i Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru oherwydd y gweithgarwch a'r buddsoddiad cyfredol, a'i fod yn ffyddiog byddai'r cynllun yn parhau i gyflawni.

PENDERFYNWYD:

1. cytuno mewn egwyddor i raglen buddsoddi cyfalaf amlinellol strategol o £300 miliwn a mwy dros y pum mlynedd nesaf, yn ychwanegol at y rhaglen gyfalaf flynyddol gylchol, gan gydnabod uchelgais y Cyngor, a bydd angen cyllid ychwanegol gan y Cyngor, Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus yn ystod cyfnod y rhaglen;
2. bydd adroddiadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor llawn (fel y bo'n briodol) sy'n cyflwyno cynlluniau busnes a gofynion ariannu, ar gyfer y prosiectau priodol, i gyflawni uchelgais y Cynllun Corfforaethol.

104 CADW AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD ALLAN O'R CYFARFOD

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.”

105 DATBLYGIAD LLETY BYW Â CHYMORTH AR GYFER UNIGOLION SYDD AG ANABLEDDAU DYSGU – PENLLEW COURT, ABERDÂR

Rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant adroddiad eithriedig i'r Cabinet, oedd yn ceisio cymeradwyaeth i newid cynllun tai gwarchod Penllew Court ar gyfer pobl hŷn yn Aberdâr, sy'n eiddo i Gymdeithas Tai Cynon Taf, yn llety byw â chymorth newydd ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. byddai'r Cyngor yn cyfrannu cyllid (cyfalaf) untro o £1 miliwn i newid Penllew Court, sef cynllun tai gwarchod ar gyfer pobl hŷn yn Aberdâr, sy'n eiddo i Gymdeithas Tai Cynon Taf, yn llety byw â chymorth newydd ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu;
2. cynnwys y cynllun yn y Rhaglen Gyfalaf dair blynedd wedi ei diweddaru a fydd yn cael ei hadrodd wrth yr Aelodau yn fuan;
3. comisiynu'r gwaith gofal a chymorth cyfredol yn y Cynllun Byw â Chymorth newydd gan ddarparwr sector annibynnol presennol o Fframwaith Byw â Chymorth y Cyngor sydd wedi ei sefydlu i ddarparu gofal a chymorth i unigolion ag anableddau dysgu;
4. awdurdodi Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant i gymryd yr holl gamau angenrheidiol i weithredu'r penderfyniadau uchod.

106 CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD WEDI'I DDIWEDDARU I ADLEWYRCHU NEWIDIADAU DIWEDDAR I'R UWCH DÎM RHEOLI

Rhoddodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet wybod am ddiweddariad i Gynllun Dirprwyo'r Arweinydd mewn perthynas â'r Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol. Eglurwyd bod hysbyseb wedi ei gyhoeddi am gynrychiolydd annibynnol i fod yn aelod o'r Grŵp, a byddai Datganiadau o Ddiddordeb yn cael eu casglu.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.25am

**Y Cyngorydd A. Morgan
Cadeirydd**